# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-04-07(p.11)

### Dyddiad: Dydd Iau 1 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Y diweddaraf ar y Refeniw a godir gan Ymddiriedolaethau'r GIG drwy Gostau Ffôn

#### Pwrpas

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gofyn am bapur i'w nodi gyda manylion yr incwm o ffonau cyhoeddus ar gyfer pob Ymddiriedolaeth.

#### Y Cefndir

Yn ystod y drafodaeth ar gostau parcio ar safleoedd ysbytai Ymddiriedolaethau'r GIG, yn sgil Adroddiad y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Hydref 2006, cododd Lynne Neagle AC gwestiwn costau cudd eraill sy'n wynebu cleifion, fel costau ffôn mewn ysbytai.

Cynigiodd y Gweinidog geisio cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol a rhoddodd ymateb llafar interim i'r pwyllgor ym mis Tachwedd. Mae'r holl ddata wedi'i ddarparu'n llawn erbyn hyn.

#### Incwm Ffonau Cyhoeddus Ymddiriedolaethau

Dyma'r incwm o ffonau cyhoeddus ym mhob Ymddiriedolaeth:

| Ymddiriedolaeth | £/bl |
|---|---:|
| Felindre | 0 |
| Gogledd Morgannwg | 0 |
| Abertawe | 2,330 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,405 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 6,640 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 6,644 |

| | |
|---|---|
| Powys | 6,900 |
| Sir Benfro | 11,741 |
| Bro Morgannwg | 14,828 |
| Pontypridd a Rhondda | 15,000 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 16,454 |
| Gwent | 24,963 |
| Caerdydd a'r Fro | 49,194 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 64,153 |
| Cyfanswm | 222,252 |

Daeth incwm ffôn Caerdydd a'r Fro, o ystyried pob ffynhonnell, i £48,000 yn ogystal â breindal o £1,193.67, ond mae hyn yn cynnwys taliadau gan staff am alwadau ffôn preifat (ffonau cyffredin a symudol) a chostau Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd am y system ffôn yn Nhrenewydd.

Mae'r costau uchod i gyd yn cynnwys breindal a thaliadau comisiwn.

## Goblygiadau Ariannol

Dim. Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi cynnwys y papur hwn (NG 2998).

## Camau i'w Cymryd

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi incwm ffôn Ymddiriedolaethau.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw Cyswllt: Gordon McKenzie, yr Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth, Rhif ffôn 029 2082 6649